# PERTHYN: Nyth

## TASG 1 : DADANSODDI / TRAFOD

Mae'r englyn yn sôn yn llythrennol am adar yn adeiladu nyth – pâr o gariadon yn penderfynu byw gyda'i gilydd a dechrau teulu. Ond mae trosiad yma hefyd.
Trafodwch, felly, i ba raddau y gallai'r englyn 'Y Nyth' hefyd fod yn englyn am bobl, nid dim ond yn englyn am adar?

## TASG 2 : LLAFAR

Dysgwch yr englyn ar eich cof. Gwnewch hyn gyda phartner.

- Dechreuwch drwy ei gyd-lefaru gyda chopi o'ch blaen.
- Yna cydlefarwch yr englyn gyda un o'r ddau ohonoch yn edrych ar y copi a'r llall yn edrych i ffwrdd.
- Yna cydlefarwch gan newid pwy sy'n edrych ar y copi a phwy sy'n edrych i ffwrdd.
- Yna cydlefarwch gyda'r ddau ohonoch yn edrych ar y copi unwaith eto.
- Yna cydlefarwch gyda'r ddau ohonoch yn edrych i ffwrdd o'r copi.
- Yna llefarwch yr englyn yn unigol, un ar ôl y llall!

Os yw hyn yn ormod i chi, dechreuwch gyda'r ddwy linell gyntaf i gychwyn, gan ddilyn yr un drefn ag uchod. Wedyn gwnewch yr un peth gyda'r ddwy linell olaf. Wedyn rhowch nhw at ei gilydd.

## TASG 3 : CREADIGOL

Petasech chi'n cael cyfle i enwi neu ailenwi'r tŷ/tai rydych yn byw ynddo/ynddyn nhw nawr, beth ddewisech chi? Gwnewch restr fer o bosibiliadau. Meddyliwch am enwau doniol posib, yn ogystal ag am rai a fyddai'n gweddu i'r dim.
Ac wedi gwneud hynny, meddyliwch am enwau newydd posib i'ch ysgol ...

## TASG 4 : CREADIGOL

### Taflen unigol i'w lawrlwytho

Lluniwch bennill addas i'r roi mewn cerdyn cyfarch i rywun sy'n symud i dŷ newydd. Gorau oll os yw'n bennill pedair llinell.